OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3250 (Cy.294)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1), (1A), (3) a (4) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno mae wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddo yr effeithir arnynt.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn 3 o'r Tabl yn Atodlen 7 (pwysau lotiau a samplau), yn lle “25”, pa le bynnag yr ymddengys, rhodder “30”.

### Diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005(**4**) fel a ganlyn.

---

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi), O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49); *gweler* adran 38(1) i gael diffiniad o “*the Minister*”.

(**2**) O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 a gafodd eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) O.S. 2005/3036 (Cy. 224).

(**4**) O.S. 2005/1207 (Cy. 79).

(2) Yn rheoliad 23(3) (samplu), ychwaneger ar y diwedd—

“;

(c) where more than 50% of the mixture consists of a species of seed for which the maximum weight of a seed lot prescribed in seed regulations is 30 tonnes, the maximum weight of the seed lot must be 30 tonnes.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

5 Rhagfyr 2006

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/55/EC ar 12 Mehefin 2006 sy'n diwygio Atodiad III i Gyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC o ran mwyafswm pwysau lotiau hadau (O.J. Rhif L 159, 13.6.2006, t.13).

Maent yn diwygio Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3036 (Cy. 224)) i gynyddu mwyafswm pwysau lot hadau o rywogaeth o hadau ŷd, ac eithrio indrawn, o 25 tunnell i 30 tunnell. Maent hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1207 (Cy. 79)) i sicrhau, lle mae mwy na 50% o lot hadau sy'n cynnwys cymysgedd o hadau planhigion porthiant a hadau y cynyddir y mwyafswm pwysau lot hadau ar eu cyfer gan y Rheoliadau hyn i 30 tunnell, bod mwyafswm pwysau y lot hadau cymysg hefyd yn 30 tunnell.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.